# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

**COFNODION**
**TACHWEDD 2025**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 19eg Tachwedd, 2025 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Canolfan Cae'r Gors, Rhosgadfan |

**PRESENOLDEB**

| ENW | Cyf. | SWYDDOGAETH | PRESENNOL/ABSENNOL/ YMDDIHEURO |
|---|---|---|---|
| Dyfan Thomas | DT | Cadeirydd | Ymddiheuro |
| Gwilym V Thomas | GVT | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Michelle Williams | MS | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Nerys Evans | NE | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Jason Hunt | JH | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Gwilym Ll Williams | GLW | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Tom Ellis | TE | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Adam S Roberts | ASR | Aelod o'r Cyngor-Cadeirio yn absenoldeb DT | Presennol |
| Arwyn Roberts | AR | Cynghorydd Ward Tryfan | Presennol |
| Huw Rowlands | HR | Cynghorydd Ward Llanwnda | Presennol |
| Nia Gruffydd | NG | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Aeron M.Jones | AMJ | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Avril Evans | AE | Clerc | Presennol |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **CROESO A DATGANIADAU BUDDIANT**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr Is-gadeirydd<br><br>Gofynnwyd i unrhyw aelod ddatgan unrhyw fuddiant ychwanegol i'r hyn sydd ar y rhestr flynyddol. | |
| | **PWYNT GWEITHREDU: DIM** | |
| 2. | **Cofnodion Cyfarfod 15.10.25 a Chofnodion Cyfarfod Brys Tachwedd 7fed**<br>Cyflwynwyd y cofnodion diweddara, ac fe'u cymeradwywyd yn unfrydol. | |
| 3. | **PWYNT GWEITHREDU: DIM** | |
| 4. | **Pwyntiau Gweithredu**<br>Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu diweddara. Roedd diweddariadau i'w cael yn y gofrestr pwyntiau gweithredu oedd wedi'i danfon yn rhan o'r papurau.<br><br>• Siec cyflog y cyn Clerc (rhif 101801 gwerth £568.66) - Eglurodd AR fod y siec yn parhau gyda'r teulu a'i fod wedi derbyn cais i newid yr enw arni gan fod cyfrif banc y cyn Clerc wedi ei gau. Eglurwyd ei fod yn bosibl newid i enw ysgutor yr ewyllys, ond fod angen derbyn llythyr cadarnhad, yn ogystal á dychwelwyd y siec wreiddiol (sydd wedi rhedeg allan, dyddiedig 26/03/25). Nodwyd nad ydi wedi derbyn dim gan y teulu eto. Cytunwyd felly fod y Cyngor Cymuned yn parhau i gadw'r arian hyd nes bod y teulu yn darparu'r dystiolaeth briodol.<br>• Diweddariad ar y wefan - DT yn absennol i adrodd | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Biniau halen - GVT wedi derbyn rhestr gyflawn o finiau yn yr ardal, yn ogystal á chadarnhad eu bod wedi eu llenwi. Rhestr wedi ei gyflwyno i'r Clerc. Cais gan AR i dderbyn copi ar gyfer ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd a gwirio nad oes unrhyw finiau ar goll oddi ar y rhestr. Ymholodd HR pwy fyddai'n gyfrifol am adrodd pan fydd angen ail lenwi'r biniau yn ystod y gaeaf. Nodwyd mai cyfrifoldeb y bobl sy'n eu defnyddio ydi adrodd wrth Gyngor Gwynedd.<br>• DT i drefnu i gyfarfod GVT a GLW i gysylltu eu cyfeiriadau e-byst newydd - Nododd GLW nad oedd DT wedi bod mewn cysylltiad. DT yn absennol i adrodd. Parhau ar y cynllun.<br>• Gwaith ail-osod copings mynwent Cefnfaes - Ceri Jones wedi cynnig amcan bris o £5,400 (wedi ei rannu gydag aelodau cyn y cyfarfod). - Nodwyd fod disgwyl derbyn 3 amcan bris am wariant sylweddol, fodd bynnag, o ystyried pa mor anodd roedd dod o hyd i rywun yn gallu a fodlon gwneud y gwaith, penderfynwyd ei dderbyn. Clerc i gysylltu gyda Ceri.<br>• Tyrchod daear Mynwent Cefnfaes - Nodwyd fod SL wedi gosod 24 trap erbyn 17/11, gyda 2 dwrch mawr wedi eu dal. Mynegodd sawl aelod fod y fynwent edrych yn daclus. Adroddodd y Clerc y byddai SL yn codi'r trapiau ar 5ed o Ragfyr erbyn bydd pobl yn rhoi blodau/tyrch Nadolig ar y beddi. Bydd SL yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan anfonebu mis Ionawr (£90 am osod y trapiau, ac £20 yr un wedyn am bob twrch wedi eu dal). Derbyniodd pawb y pris.<br>• Lein Bryngwyn - gwaith wedi ei gwblhau ac anfoneb wedi ei dderbyn. Mynegodd sawl aelod fod y pris i'w weld yn uchel o ystyried fod trefniant wedi ei gytuno mai ond 50% roedd y Cyngor Cymuned am ei dalu. Nodwyd hefyd fod yr anfoneb a dderbyniwyd yn rhy syml o lawer, a bod angen derbyn yr anfoneb lawn, am y pris gwreiddiol, fel i gadarnhau canran y Cyngor, ac i allu adhawlio TAW. Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Jones yn gofyn am y wybodaeth.<br>• Adroddiad Bioamrywiaeth- drafft cyntaf wedi ei gyflwyno i aelodau - Pawb yn hapus gyda'r adroddiad. Awgrymwyd fod angen cynnwys amcanion. Cytunwyd mai prif amcan y Cyngor fyddai i addysgu ein hunain yn well ar faterion sy'n ymwneud á bioamrywiaeth, gan fod yn agored i gyfleoedd hyfforddiant, yn ogystal á ymchwilio i grantiau i wneud yr ardaloedd yn fwy gwydn. Clerc i ailddrafftio'r adroddiad, gydag aelodau wedi cytuno i'w gymeradwyo drwy e-bost o ystyried fod angen ei gyflwyno dyn diwedd y flwyddyn, a dim cyfarfod rŵan hyd nes fis Ionawr. Awgrymodd AR fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w adolygu yn y cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o hyn ymlaen. Cytunodd bawb.<br>• Mandad banc - wedi ei gwblhau erbyn hyn, ond fod angen arwyddo dogfennau i ganiatáu newid cyfeiriad, fel bod popeth wedi ei gyfeirio at y Clerc newydd. Yn absenoldeb DT, AME am ymweld ag ef pan yn gyfleus i arwyddo'r dogfennau. | |
| 5. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>• **Cyflwyno copi o restr biniau halen i Gyngor Gwynedd.**<br>• **Derbyn pris Ceri Jones am waith ail osod copings Mynwent Cefnfaes.**<br>• **Cysylltu gyda SL i gadarnhau derbyn pris dal tyrchod.** | **AR**<br>**AE**<br><br>**AE** |

DRAFT

Cyngor Cymuned Llanwnda
Clerc: Avril Evans Ffôn: 07842710466 E-bost: Clerc@ccllanwnda.cymru

| | | |
|---|---|---|
| | • **Ysgrifennu llythyr at Mr D Jones yn gofyn i weld yr anfoneb lawn.**<br>• **Ail ddrafftio'r Adroddiad Bioamrywiaeth, a'i rannu i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno yn swyddogol.** | **AE**<br><br>**AE** |
| 6. | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw:<br>Cyfri Siec:<br><br>Anfonebau/Taliadau:<br>Sieciau:<br>Cyflog/costau clerc (Avril) Hydref 2025 (£616.00)<br><br>Tanysgrifiad trwyddedau IONOS d/o Dyfan Thomas (£7.20, £12.10, £9.72)<br><br>Ifan Williams – cytundeb torri gwair mynwent. Siec wreiddiol (rhif 101768) wedi mynd ar goll rhwng y post a'r banc, felly wedi gorfod ei chanslo. Cais gan Ifan, o ystyried fod y banc agosaf yn bell, i greu dwy siec, fel bod y swm yn llai 'na £5,000 ac felly gellid ei bancio drwy dynnu llun ar ei ffon. Aelodau wedi cytuno. 2 siec wedi eu paratoi, siec 101775 am £3,000, a siec 101776 am £2,088.00<br><br>D W Jones – gwaith ffensio Lein Bryngwyn<br><br>Un Llais Cymru-infois 10140 – hyfforddiant HR<br><br>Un Llais Cymru 10206 – hyfforddiant DT<br><br>Golwg- hysbyseb swydd<br><br>Taliadau ar-lein:<br>NEST – pensiwn misol<br>HSBC – ffioedd banc<br><br>Incwm:<br>DIM | <br>£51,476.48<br>£14,604.40<br><br><br><br>£616.00<br><br>£29.02<br><br><br>£5,088.00<br><br><br><br><br>£1,860.00<br><br>£42.00<br><br>£42.00<br><br>£18.00<br><br>£62.35<br>£14.00 |
| 7. | **PWYNT GWEITHREDU: Clerc i bostio sieciau** | |
| 8. | **Is-bwyllgorau**<br><br>Cyfarfod Is-bwyllgor mynwent wedi ei gynnal 28/10. Cofnodion wedi eu rhannu gydag aelodau. Cofnodion wedi eu derbyn.<br><br>Nodir fod Is-bwyllgor Staffio wedi trefnu cyfarfod erbyn 27ain o Dachwedd 2025. | |
| 9. | **PWYNT GWEITHREDU: DIM** | |
| 10. | **Materion i'w trafod** | |

DRAFT

- Cais grant Cyfraniad Ni i Gynghorau Tref a Chymuned Gwynedd - diweddariad gan AME. Nodwyd fod y testunau, lluniau a mapiau wedi eu pasio ymlaen i gwmni Nature Sign a bod y drafft cyntaf wedi ei dderbyn wythnos diwethaf.

  NG wedi e-bostio'r cwmni ynglŷn addasiadau i'r drafft, disgwylir derbyn fersiwn diwygiedig yn fuan. Infois proforma wedi ei dderbyn am £7,560 + TAW, sy'n cynnwys y gwaith dylunio, creu'r arwydd, ac y postia/fframiau pren. Nodwyd fod SL wedi cynnig pris o £500 am y gwaith gosod.

  Wedi derbyn pris o £9 yr un + TAW am 'waymarker discs'. Archeb am 30 wedi ei gadarnhau. Gofynnwyd i'r aelodau am ganiatâd mewn egwyddor i wario rhywfaint mwy 'na gwerth y grant os bydd rhaid.  Cytunodd bawb.

  Mynegodd y Clerc bryder na fyddai digon o arian yn y cyfrif siec i dalu anfonebau rhwng rŵan a diwedd y flwyddyn ariannol. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn llunio llythyr yn nodi'r swm i'w drosglwyddo o'r cyfrif cadw (£30,000), ac yn trefnu i'r aelodau perthnasol ei arwyddo. Cytunodd MW i fynd a'r llythyr i'r banc.

  Nododd NW hefyd fod angen cychwyn paratoi ar gyfer hysbysebu ceisiadau nawdd. Cytunwyd i'r Clerc baratoi'r hysbyseb yn barod erbyn y cyfarfod nesaf, mis Ionawr 2026.

- Trwsio ffens ar lwybr Bryngwyn - Morfudd (gwraig D.Jones) wedi cysylltu yn dweud fod y ffens wreiddiol osodwyd gan y Cyngor wedi disgyn/pydru. Contractwyr wedi cynnig pris o £800 am waith clirio'r ffens - Cyflwynwyd y dyfynbris i'r aelodau. Roedd peth ansicrwydd ynglŷn â pha ffens sydd wedi disgyn, gan fod y Cyngor yn gyfrifol am y ffens un ochr i'r llwybr, a Mr Jones yr ochr arall. O ystyried fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Jones ynglŷn ag anfoneb beth bynnag, cytunwyd i ymholi am y ffens yma ar yr un pryd cyn gwneud penderfyniad.

- Llifogydd Cae'r Ysgol, Rhosgadfan - Eglurodd AR fod y contractwyr wedi dod o hyd i bibell ddŵr wedi ei gosod yn anghywir, sydd yn achosi'r llifogydd. Debyg bydd dadlau yn y diwedd ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am y costau trwsio. Cytunodd AR i gadw'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau.

- Hen fodurdai Bro Gilbert - Nodwyd fod trigolion Bro Gilbert wedi derbyn 'Notice to Quit' yn 2021 gan Adra, yn nodi fod angen dymchwel y modurdai. Mae llythyr arall wedi ei dderbyn yn ddiweddar yn rhoi cynnig i unrhyw rai sydd gyda diddordeb i brynu'r tir. Nododd HR ei fod wedi e-bostio Adra ar sawl achlysur yn ymholi am ddyfodol y modurdai, hen unrhyw ymateb. Mewn gobaith o dderbyn gwell dealltwriaeth o fwriadau Adref, cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu i wneud ymholiadau, gyda HR hefyd yn parhau i geisio ymateb.

- Llwybr cerdded o Glan Yr Afon i lwybr Cae Coch, Rhostryfan - Eglurodd NE fod y llwybr (rhif 161) wedi ei fabwysiadu fel llwybr swyddogol ers 2023 a bod y Cyngor Sir ers hynny wedi dweud y byddent yn gofalu amdano.

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd fodd bynnag fod y gamfa garreg yn beryglus, gyda nifer o'r cerrig wedi symud. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ymholi am gynnal y gamfa.<br><br>• Arwydd wrth dŷ Llecyn (LL54 7ND) wedi ei droi/symud wrth i gerbydau mawr ddefnyddio'r ffordd gul - Nodwyd, er bod arwydd yma, fod cerbydau mawr yn parhau i ddefnyddio'r lon, a bod yr arwydd yn cael ei symud allan o'i le. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i'r arwydd cael ei droi'r ffordd gywir.<br><br>• Tacluso llwybrau yn y fynwent a chlirio a thorri coed ar y beddi a'r waliau- SL wedi ymweld â'r fynwent gyda GLW-contractwr cynt heb wneud y toriad olaf. Dyfynbris o £460 am dorri'r coed ayyb, wedi ei rannu gydag aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd i dderbyn y pris.<br><br>• Defnyddio plaladdwr ar lwybr y fynwent a thu allan i'r giât - SL wedi cynnig pris o £35 (fel arfer yn gwneud dwywaith y flwyddyn). Contractwr cynt heb wneud y toriad olaf, a gordyfiant sylweddol ar y llwybr. Aelodau yn hapus i dderbyn y pris, ond, fel i gadw at bolisïau'r Cyngor, i bwysleisio mai ond ar y llwybrau mae'n bosibl defnyddio'r pla laddwr. Clerc i gadarnhau wrth SL.<br><br>Nododd GLW hefyd fod coeden wedi gwreiddio yn y fynwent, ble gall arwain at ddifrod sylweddol i'r beddi. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn holi SL am ddyfynbris i'w gwaredu.<br><br>• Arwyddo dogfennau buddiannau, lwfansau a chytundeb cyflogaeth y Clerc - DT ac AJ yn parhau heb lofnodi - yn ei absenoldeb, DT wedi nodi y byddai'n dychwelwyd y dogfennau i'r Clerc yn fuan. Awgrymwyd fod y Clerc yn danfon y dogfennau yn electroneg i AJ unwaith eto. Nodwyd y byddai rhaid cael DT hefyd i lofnodi cytundeb cyflogaeth y Clerc. | |
| 11. | **PWYNT GWEITHREDU :**<br>• **Ysgrifennu llythyr cais i'r banc ar gyfer trosglwyddo arian o'r cyfrif cadw i'r cyfrif siec.**<br>• **Paratoi hysbyseb ceisiadau nawdd.**<br>• **Ysgrifennu at Mr Jones yn holi am union leoliad y ffens sydd wedi torri.**<br>• **Ymholi Adra am ddyfodol modurdai Bro Gilbert.**<br>• **Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i holi am gynnal camfa llwybr 161.**<br>• **Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ail-osod arwydd ger Llecyn.**<br>• **Derbyn dyfynbris SL am dorri coed y fynwent, defnyddio pla laddwr ar y llwybrau, ac i ymholi am bris ar gyfer gwaredu a'r goeden.**<br>• **Gyrru dogfennau lwfans a buddiannau i AJ drwy e-bost.** | **AE**<br><br>**AE**<br>**AE**<br>**AE + HR**<br>**AE**<br>**AE**<br>**AE**<br><br>**AE** |
| 12. | **Materion Cynllunio**<br>• Pen Y Gwylwyr, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7NT- Mae'r bwriad yn cynnwys dymchwel estyniad sy'n dirywio ac ansefydlog.<br><br>Dim gwrthwynebiad i unrhyw gais, fod unrhyw addasiadau/estyniadau yn gweddu i'r adeilad gwreiddiol/stad. | |
| 13. | **PWYNT GWEITHREDU –**<br>**Clerc i ddanfon sylwadau** | **AE** |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 14. | **Gohebiaeth –**<br><br>• E-bost Arolwg ar Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd – cytunwyd na fyddai'n bosibl ymateb fel Cyngor gan fod amgylchiadau pawb yn wahanol. Nodwyd fod rhai aelodau wedi cwblhau'r holiadur yn unigol.<br>• Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais - angen dethol aelod i fynychu, ac aelod wrth gefn - Mae cyfarfod nesaf y Cyngor eisoes wedi ei drefnu ar gyfer yr un dyddiad (21/01/26). Cytunwyd i'r Clerc yrru ymddiheuriadau na fyddai unrhyw aelod yn mynychu. | |
| | **PWYNT GWEITHREDU :**<br>• **Ymddiheuro i Un Llais na fydd unrhyw aelod ar gael i'r cyfarfod.** | **AE** |
| 15. | **Materion Cynghorwyr Sir -** e-bost wedi ei dderbyn gan HR ac AR gyn y cyfarfod. | |
| 16. | **PWYNT GWEITHREDU: DIM** | |
| 17. | **Rhannu Gwybodaeth**<br><br>• Nododd MW ei bod yn ei chael yn anodd iawn mynychu cyfarfodydd Ysgol Gynradd Rhosgadfan. Eglurwyd fod y cyfarfodydd gwastad yn cael eu cynnal am 5:30, ac nad ydi'n gorffen ei gwaith hyd nes 6:00. Mae sawl cyfarfod wedi ei fethu yn ddiweddar. Cytunodd AR i drafod gyda'r ysgol y posibilrwydd o newid amser/lleoliad y cyfarfodydd.<br>• Mynegodd sawl aelod siom nad oedd Cyngor Gwynedd yn torri gwair na gwrychoedd yr ardal i safon. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Phennaeth Priffyrdd i gyfleu hyn, gan obeithio derbyn eglurhad. | |
| 18. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>• **Ymholi am newid amser/lleoliad cyfarfodydd Ysgol Gynradd Rhosgadfan**<br>• **Cysylltu gyda Phennaeth Priffyrdd i adrodd am ddiffyg torri gwair a gwrychoedd yr ardal** | **AR**<br>**AE** |
| 19. | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Tachwedd 19eg, 2025 | |

DRAFT